Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru):

Gohebiaeth ynghylch hanes Cymru

Tra bod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (y Pwyllgor) yn craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), a chyn hynny, cafodd y Pwyllgor lawer o ohebiaeth yn ymwneud ag **addysgu hanes Cymru** fel rhan o'r cwricwlwm newydd.

Roedd y corff hwn o **ohebiaeth yn galw'n fras** am y darpariaethau a ganlyn wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd:

1. Rhoi arweiniad clir i'r Ysgolion Arloesi[1], a'r grwpiau eraill sy'n cyfrannu tuag at y broses, er mwyn sicrhau bod hanes Cymru yn ganolog ac yn greiddiol i unrhyw gynlluniau a ddatblygir ganddynt;
2. Sicrhau bod cynlluniau ar waith i asesu'r angen am adnoddau perthnasol ac i gomisiynu proses o ddarparu'r adnoddau hynny fel mater o flaenoriaeth; a
3. Dull agored a thryloyw o ddatblygu'r meysydd astudio, fel bod cyfle i'r Senedd, rhanddeiliaid ac eraill â diddordeb ddatgan barn.

Cafodd yr holl sylwadau hyn eu **cynnwys fel rhan o ystyriaeth y Pwyllgor** o'r Bil. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth fideo hefyd mewn perthynas â'r mater hwn.

Ystyriwyd y mater hwn hefyd gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, a gynhaliodd ymchwiliad ar wahân i'r modd y caiff hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru eu haddysgu mewn ysgolion. Cyhoeddodd ei adroddiad, Addysgu hanes Cymru, ym mis Tachwedd 2019.

[1]Ysgolion a aeth i'r afael â'r cynigion ar gyfer y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd oedd yr Ysgolion Arloesi.